DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, RHAGFYR 6ED YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0112/18 Presennol

Yn y Gadair Maer, Cyng. Eric W. Roberts, Cynghorwyr Mici Plwm, A. Williams, E. Gruffydd, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, Elin Hywel, Dr Iwan Edgar, Ffiona Adams, M. Parry, D. O. Jones, H. Underwood, D. Bullard

Clerc dros dro E. Price
……..

Cof; - 0212/18 Ymddiheuriadau
Cynghorwyr Henry Rees Williams; E. J. Hughes

……
Cof; - 0312/18 Datgan Diddordeb

Cyng. D. Bullard (rhif 21)

……

Cof; - 0412/18 Gair gan y Maer
Adroddiad y Maer yn y llyfr cofnodion.

……..

Cof; - 0512/18 Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.
Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

…….

Cof;- 0612/18 Heddlu yn adrodd ar ei gwaith gyda grwpiau yn y gymuned.

- Sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i wneud arddunediau Nadolig.
- Gwasanaeth prawf yn dechrau gweithio er lles y gymuned ym Mis Ionawr.
- Garddio yn Ganolfan Hamdden. Bwriadu codi pres ar gyfer Polytunnel.

Maer yn diolch i'r Heddlu am eu hymroddiad i'r gymuned.

……

Cof;-0712/18

Trafod syniadau a chasglu barn ar ddyfodol hen glwb hwylio'r dref gan ymgynghorwyr busnes wedi cael eu noddi ac yn gweithio dan grant gyda Phlas Heli .

Trafodwyd “bunkhouse” fel syniad. Awgrymwyd bod angen sicrhau cysylltid gyda’r dref a bod yn parhau i fod yn adnodd cymunedol.

…….

Cof; - 0812/18 Materion Cyfansoddiadol a Staff.

a) Bydd cyfarfod Is bwyllgor i benodi clerc ar 19 fed o Ragfyr am 6 30 y.h.

b) Mae archwiliad wedi ei ddechrau ar y Siambr, lluniau ar gael.

……

Cof; - 0912/18:Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Tachwedd, 2018.

Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd fel rhai a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

……..

Cof; - 1012/18 - Adroddiad clerc dros dro.

Derbyniwyd yr adroddiad . Adroddiad yn y llyfr cofnodion.

…….

Cof;- 1112/18 Cynllunio.

a) C18/1065/45/LL-Codi sied amaethyddol i gartrefu gwartheg godro. Gwynfryn Farm

Dim gwrthwynebiad.

b) C18/1004/45/LL-Newid dyluniad tŷ a ganiatawyd o dan ganiatâd cynllunio 2/25/127H

Dim gwrthwynebiad.

……..

Cof;- 1212/18- syniadau gan Gynghorwyr ar gyfer prosiectau

1. Meinciau i'r Dref- Penderfyniad derbyn y prosiect gan gynnwys dwy fainc i goffau diweddar glerc Mr R. Hughes.

2. Twbiau blodau- Gohirio penderfyniad tan gyfarfod Ionawr. Cyng. Hefin Underwood am gyflwyno syniadau gwahanol.

3. Trafodaeth ar amgylchedd y dref. Bu awgrym bod angen pwyllgor tŷ allan i'r Cyngor i drafod.

Gwahoddiad i swyddog o’r Ganolfan Hamdden i gyfarfod nesaf y Cyngor i roi cyflwyniad ar y gwaith garddio sydd yn y ganolfan.

…….

Cof;- 1312/18
Y Tram- trafod yn bellach yn is grŵp ariannol 19 o Ragfyr am 6.45 y.h.- hawl i weithredu wedi ei roi i'r is grŵp ariannol. Cyng. Michael Sol Owen am ofyn am gyfraniad at y gost gan Blas Glyn y Weddw.
…….
Cof; - 1412/18 Cydlynydd Cymunedol- Trafod adroddiad Cyng. Elin Hywel.

Cytuno mewn egwyddor. Angen mwy o fanylion. Awgrym i wahodd clerc partneriaid Ogwen i egluro cynllun nhw.

……..

Cof;-1512/18- Hesg o gwmpas y dref. Ymweliad gan CNC i Gyngor Ionawr

.....

Cof;-1612/18- Marchnad Sul- disgwyl ateb.
……

Cof;- 1712/18. Sefyllfa traffic ym Mhwllheli.

Wedi derbyn ymateb. Adran cynnal a chadw yn disgwyl am fwndel o waith i roi allan cyn archebu`r gwaith.

.....

Cof;- 1812/18-Safle bysus.

Dim rhagor o wybodaeth yw rhoi.
.....

Cof;- 1912/18- WI FI i`r dref.

Bydd cyfarfod cyhoeddus yn y Siambr 12fed o Ragfyr am 6 30 y.h.

.....

Cof;2012/18- Lleoliad Penddelw Cynan.

Penderfynu gyrru llythyr i Neuadd Dwyfor i drafod lleoliad yn y Neuadd.
.....

Cof;- 2112/18-Cais am gyfraniad ariannol gan Glwb Peldroed Pwllheli.

Penderfynu rhoi £1,000 pan fydd y wybodaeth berthnasol wedi ei dderbyn oddiwrth Glwb Peldroed Pwllheli.

.....

Cof; - 2212/18- Sylw ar y bwrdd gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd parthed fflatiau dwy loft wag yn

yr Eifl a Bro Cynan.
……

Cof 2312/18- Gwelliant i system TCC Pwllheli.

Penderfynu trafod yn Is bwyllgor 19 fed o Ragfyr.
.....

Cof;-2412/18

Derbyniadau-cytunwyd

750	Arian PACT	CR
250	Rhent Adams	CR

Cof;-2512/18
Taliadau-cytunwyd

432	Weindio cloc	203056
36	Newid papur penawd	203057
644.47	HMRC	203059
2037.41	Costau gweinyddol rhedeg y siambr	sieciau
25	Blodau seremoni Prifardd	203058
210	Archwilio cyfrifon mewnol	203063
813	Bwffe seremoni Prifardd	203064
50	Torch Sul y Cofio (RBL Poppy)	203065
33.45	Poppies “lamp posts”	203066
250	Rhoddion Prosiect Plas Carmel	203067
664.80	R.J. Electrics. 2 colofn newydd	203068
159	Aelodaeth SLCC	203069
99	Cyfrifiaduron Llyn-gwaith ar gyfrifiadur	203070
118.80	SLCC-cymhwyster clerc	203071
3,303.60	R.J.Electrics-gosod goleuadau nadolig	203071

Daeth y Cyngor i ben am 8 30yh

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 10 fed o Ionawr 2019

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 2 Ionawr 2019.